Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

| | |
|---|---|
| **Teitl** | **Academi Cenedlaethau'r Dyfodol** |
| **Rhif yr eitem** | **7** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **19 Mawrth 2024** |

**Ystyried a rhoi sylwadau ar y materion canlynol:**

**Academi Cenedlaethau'r Dyfodol 2024-25**

Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr, darparwyd rhagor o wybodaeth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran yr Academi ar gyfer 2024-25.

Bydd Academi 4.0 yn rhedeg o fis Medi 2024 i fis Mawrth 2025, gyda charfan amrywiol o 35 o bobl ifanc, 18-30 oed ar adeg y cais. Mae hyn yn cynnwys 70 awr o ddysgu a hyfforddiant ar y Ddeddf a'u Sgiliau Arweinyddiaeth, gyda 50% o'r dysgu yn cael ei ddarparu ar-lein.

Mae'r Academi yn gwbl hygyrch i bobl ifanc o bob cefndir ac anogir defnydd o’r Gymraeg. Yn 2023-24, roedd gan yr Academi 20% o ddarpariaeth yn y Gymraeg a chyfranogiad o 18%.

Mae'r modiwl Cynllun Gweithredu yn cynrychioli 20 awr o ddysgu, sy'n canolbwyntio ar weithredu cymdeithasol mewnol gyda'r cynllun mentora gwrthdro yn canolbwyntio ar weithredu cymdeithasol allanol. Mae cyfleoedd hefyd i bobl ifanc a noddwyr rwydweithio yng Nghymru a'r byd gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Caiff yr holl aelodau eu monitro'n agos drwy gydol y daith ac maent yn derbyn adroddiad llawn ar y diwedd gyda'r holl ganlyniadau a chanfyddiadau. Ar ôl ei gwblhau, gall aelodau hefyd ymuno â'r Cyn-fyfyrwyr, sy'n rhwydwaith gweithredol gyda chyfleoedd pellach i rwydweithio a chysgodi aelodau blaenorol.

Mae rhagor o wybodaeth a'r prosbectws ar gyfer Academi 3.0 2023-24 ar gael yma.

Y ffi noddi ar gyfer un cyfranogwr yw £8,000. Mae'r ffi hon yn cynnwys unrhyw gostau i’r unigolion, unrhyw ofynion hygyrchedd ac unrhyw anghenion sy'n seiliedig ar dechnoleg.

| | | |
|---|---|---|
| **I drafod a chytuno:**<br>• I gytuno a fyddai’r BGC yn dymuno noddi unigolyn o’r sir i fod yn rhan o gohort 2024-25 | **A oes angen penderfyniad?** | **Oes** |

**Cynigiwyd gan**

**Tîm Cefnogi BGC**